

## **Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Gorffennaf 24ain 2017 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30yh.**

**Presennol:** Cynghorwyr Roy Tickle (Cadeirydd), Catherine Jones (Is gadeirydd), Philip Stevens, Colin L Hughes, Gwawr Cordiner, Rob Parkes, Lara Pritchard, Marilyn Jones, Alyn Ashworth, Glenn Swinger, Gaynor Morgan Rees, Gaynor Wood-Tickle, Rhys Thomas; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Dyfrig Berry & Guto Lloyd-Davies.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor llawn mis Gorffennaf.

### **53. Neil Stringfellow - diweddariad gan Heddlu Gogledd Cymru.**

Cyfeiriodd Neil i'r manylion oedd wedi cael ei rhoi i'r cynghorwyr ar gyfer eu cyfarfod ym mis Mehefin. (Ynglwm). Roedd y cynghorwyr tref yn cael y cyfle i ofyn cwestiwn ynghylch y wybodaeth a ddarparwyd.

Cyng Gaynor Wood-Tickle - ynghylch terfysgaeth.

Neil Stringfellow - Rhoddwyd gwybodaeth yn ddiweddar i grŵp Diogelwch Dinbych. Mae angen i'r cyhoedd ddweud am unrhyw weithgarwch amheus. Mae 'Operation Highlight' yn cynnwys yr holl glystyrau o derfysgaeth. Mae angen i'r cyhoedd yn gyffredinol fod yn fwy ymwybodol.

Cyng Gaynor Morgan Rees - Diolchodd i Neil am fynychu. Roedd gan y Cynghorydd yr un cwestiwn ynghylch terfysgaeth fel yr uchod.

Cyng Glenn Swinger - Cynghorodd ei fod wedi mynychu cyfarfod ar derfysgaeth a diogelwch yn ddiweddar. Roedd Y Cyng Swinger eisiau gwybod os oedd y ffigurau a roddwyd wedi cynyddu neu wedi gostwng. Bu nifer o ostyngiad mewn swyddogion yr heddlu, ydi hyn yn gwneud gwahaniaeth?

Neil Stringfellow - Nid yw'r ffigurau yn Ninbych wedi newid rhyw lawer. Un o'r prif faterion i'r heddlu yw diogelwch cymunedol yn 83. Mae hyn yn delio ag oedolion sy'n agored i niwed. Mae angen i asiantaethau eraill i fod yn fwy cefnogol, fodd bynnag, mae'r Heddlu ar gael 24/7 gyda gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael yn ystod oriau'r dydd.

Cyng Glenn Swinger - Smithfield / Pwll y Grawys - mae'r patrolau ar droed yn gweithio'n dda yn yr ardal.

Cyng Rhys Thomas - Diolchodd i Neil am fynychu a dywedodd fod ganddo 2 gwestiynau i'w gofyn. O ran y CCTV yn Sir Ddinbych, ydynt wedi eu profi i fod yn ddefnyddiol?

Neil Stringfellow - Dim euogfarnau. Y prif fater yw nad yw'r camerâu yn cael eu goruchwyllo a hefyd fod llawer o feysydd 'ysgubo' 'dall'. Mae HGC wedi cael gafael ar 25 o gamerâu bywyd gwyllt yn lleol sydd yn dda ar gyfer cofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyng Rhys Thomas am gadw'r ail gwestiwn tan yn ddiweddarach rhag ofn i un o'r cynghorwyr eraill dod â'r cwestiwn i fyny.

Cyng Gwawr Cordiner - pryder am faterion sy'n ymwneud â chyffuriau yn y Stryd Fawr. Mae hyn yn newid deinameg y Stryd Fawr.

Neil Stringfellow - Mae'r heddlu yn gweithio ar welliannau. Mae gweithrediadau parhaus yn y lleoliad yn gweithio gyda thrigolion lleol. Mae gwaith rhagweithiol, ond hefyd diffyg staffio a PCSO gyda phwerau cyfyngedig.

Cyng Colin L Hughes - materion goryrru a cherbydau stopio yn y safle bws ym Mhwll y Grawys.

Neil Stringfellow - nid yw wedi derbyn unrhyw adroddiadau o broblemau gyda pharcio ym Mhwll y Grawys.

Cllr Philip Stevens - Mae cyffuriau yn bryder mawr. Cymunedau llai yn cael eu targedu. CCTV yn gostus iawn i'w reoli.

Neil Stringfellow - Grwpiau yn dod o ymhellach i ffwrdd i Ddinbych. Maent yn aros mewn un lleoliad am ychydig o wythnosau ac yna symud ymlaen. Crac Cocên ar gynnydd - mae hyn yn dod a materion ychwanegol o droseddau treisgar. Cafwyd 20 o faterion gwarantau yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae colli staff yr heddlu yn cael effaith ar drosedd.

Cyng Rob Parkes - Parcio wrth ysgolion yn achosi problemau. Mae llawer o hyn ar gyfryngau cymdeithasol.

Neil Stringfellow - Maent yn rhoi cyhoeddusrwydd camau'r Heddlu. Mae'r PCSO's yn anfon llythrau rhybuddio am droseddau rhwystro.

Cyng Rob Parkes - Dywedodd bod troseddau casineb yn isel iawn.

Cyng Catherine Jones - Mae pobl ifanc yn chwarae 'chicken' gan yr HWB sydd yn peri pryder.

Neil Stringfellow - Mae'r PCSO's yn monitro'r ardal.

Cyng Catherine Jones - mae'n dda cael presenoldeb yr Heddlu yn y dref.

Cyng Roy Tickle - ynghylch parcio wrth ysgolion, mae trigolion wedi awgrymu rhoi biniau olwyn allan i atal y parcio. Dywedodd hefyd fod yna gamera y tu allan i Caledfryn y gellid ei weld os oes angen.

Cyng Glenn Swingler - digwyddiadau y tu allan i'r ysgol - pwy sy'n adrodd y materion hyn. A ddylai fod yr ysgol?

Neil Stringfellow - yn arferol y rhieni sy'n adrodd y digwyddiadau i'r Heddlu.

Diolchodd y Cyng Roy Tickle Neil Stringfellow am ddod i'r cyfarfod ac am ateb cwestiynau'r cynghorydd.

Gadawodd Neil Stringfellow'r cyfarfod am 7.03yh.

#### **54. Materion Brys;**

Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Roy Tickle i'r cynghorwyr am ymddygiad amhriodol yng nghyfarfod cyngor llawn ddiwethaf.

Ar ôl bod mewn cysylltiad â'r swyddog monitro, Mr Gary Williams yng Nghyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â'r cyfarfod o'r cyngor llawn a gynhaliwyd ddydd Llun 26 Mehefin 2017. Rwyf wedi cael cyngor i fonitro'r sefyllfa fel bod y cyfarfodydd yn mynd ymlaen. Fel yr ydym i gyd yn gwybod yn y cyfarfod cyngor llawn ddiwethaf roedd yn ymddangos fod pwysau yn cael ei roi ar y Clerc i gytuno i eitem nad oedd ar yr agenda a daeth cwestiynau ar hap o aelodau. Roedd nifer yn ceisio siarad ar yr un pryd. Rwyf yn derbyn y dylwn fod wedi rheoli'r cyfarfod ac ni chaniateir i'r pwnc i'w trafod gan nad oedd ar yr agenda. Gallwn ni i gyd fod yn ymwybodol yn y dyfodol bod pob eitem i'w drafod cael eu rhoi ar yr agenda ar yr adeg briodol drwy hysbysiad i'r clerch y dref.

#### **55. Datganiad Diddordeb Personol - dim.**

#### **56. Cytunwyd ar y cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar ddydd Llun 26 Mehefin, 2017 a nodwyd yn y Saesneg yn dilyn diwygio tud 11, eitem 45 y Cynghorydd Glenn Swingler (a).**

Dywedodd y Cyng Rhys Thomas ei fod newydd dderbyn y fersiwn Gymraeg a dim amser i ddarllen drwy'r ddogfen. Gofynnodd y Cyng Rhys Thomas hefyd y dylai'r cofnodion gael eu derbyn ar yr un pryd. Dywedodd Clerc y Dref nad oedd digon o amser i baratoi fersiwn Gymraeg o'r cofnodion, a bod yr Agenda sef yr unig ofyniad cyfreithiol ar gyfer y cyfarfod wedi ei gyflwyno yn ddwyieithog o fewn yr amserlen a roddwyd.

#### **57. Materion yn codi - Dim**

**58. Atal y Rheolau Sefydlog Dinbych Tref y Cyngor** - gan ganiatáu ar gyfer cyfarfod arbennig i'w gynnal ddydd Mercher 16 Awst gydag agenda yn cael ei gylchredeg ddydd Llun 14 o Awst. Cafodd hyn ei gytuno gan y cynghorwyr. Cynhelir y cyfarfod arbennig ar 16 Awst i sicrhau bod pob taliad yn gyfredol, unrhyw geisiadau cynllunio ac unrhyw faterion brys. Bydd y Cynghorwyr Roy Tickle, Catherine Jones, Rob Parkes a Lara Pritchard yn mynychu.

**59. Adroddiad y Maer:** Dosbarthwyd copi o benodiadau'r Maer a'i nodi. Diolchodd y Cyng Roy Tickle i bawb a fynychodd ei Sul Dinesig ar 9fed o Orffennaf. Fe'i mynychwyd yn dda iawn gyda llawer eraill o Feiri yn bresennol. Dywedodd y Cyng Roy Tickle hefyd bod yr ymwelwyr Gefeillio wedi cael wythnos hyfryd yn Ninbych gyda llawer o ddigwyddiadau a gynhelir ar eu cyfer.

**60. Llythrau, E-bost a Hysbysiad:** Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

- a) Cytundeb Lefel Gwasanaeth diwygiedig - Pwyllgor Rheoli'r Neuadd y Dref Dinbych , derbyniwyd, llofnodwyd a'i dychwelyd.
- b) Rhestr o ddyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru, dosbarthwyd y manylion gyda'r cynghorwyr. Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu unrhyw un o'r cyrsiau angen cysylltu â chlerc y dref cyn gynted ag y bo modd.
- c) Diweddariad E-bost ynghylch y Swyddfa Bost Dinbych.
- d) Pwyllgor Safonau Cyngor - Gwefan CDT. Cadarnhaodd clerc y dref fod Cyngor Tref Dinbych wedi gwneud yn dda iawn gyda chanfyddiadau'r pwyllgor mewn perthynas â'r wefan hon.

## **61. Cynllunio - dim**

## **62. Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.**

(1) Nodwyd cofnodion Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid - 17.07.17.

(2) Nodwyd cofnodion Pwyllgor Cynllunio - 18.07.17.

## **63. Cofnodion / adroddiadau o is-bwyllgorau cyngor.**

Dywedodd y Cyng Gyngor Wood-Tickle ei bod, ynghyd â Chynghorydd Marilyn Jones & Roy Tickle i ymweld â Elite Marshaol Arts dydd Gwener ddiwethaf yn dilyn gohirio eu cais am gymhorthdal ar y 17.07.17. Mae mater llaith enfawr yn yr adeilad sy'n achosi llawer o faterion. Bydd y cais cymorth yn cael ei ystyried ar 16 o Awst.

## **64. Cofnodion / adroddiadau o grwpiau eraill:**

- a) Arweinydd Tref Dinbych - Cadarnhaodd clerc y dref fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda'r gweithgor. Yr holl fanylion sydd eu hangen i gael ei ddychwelyd i'r clerc erbyn diwedd y mis. Yna bydd y manylion diwedda yn cael ei hanfon at y cyhoeddwr iddynt greu drafft o'r llyfryn. Dylai'r llyfryn gael ei gyhoeddi ym mis Hydref.
- b) N & MW Assoc o TC - Dywedodd y Cyngor Roy Tickle ei fod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod yng Ngheirion Connah. Cafwyd datganiad diddorol o'r Senedd ynghylch cyfuno ym mis Medi / Hydref.
- c) Dywedodd y Cyngor Roy Tickle ei fod wedi mynychu gyda'r clerc y dref y cyfarfod grŵp clwstwr yn Llanelwyr - llawn gwybodaeth.

## **65. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

**Cyng Glenn Swinger** a) Bathodynau Glas - yn ystod cyfarfod pwyllgor archwilio diweddar trafodwyd bathodynau glas gyda'r posibilrwydd o barcio am ddim i ddeiliaid bathodynau glas. Byddai hyn wedi arwain at fewnlifiad o geisiadau ychwanegol a byddai'r rheolwyr fod yn gostus iawn. Cynigodd y Cyngor Swinger dyraniad amser ychwanegol i ddeiliaid bathodynau glas. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn nes ymlaen. b) Dinbych Uchaf - trafododd Pennaeth Gwasanaeth, Jamie Groves, garejys y Cyngor mewn lleoliadau amrywiol. Mae angen eu huwchraddio a thacluso.

**Cyng Rhys Thomas** - llongyfarchodd y Cyngor Glenn Swinger ar ei syniad ar gael dyraniad amser estynedig ar gyfer deiliaid bathodynau glas. a) mae dyddiad y cyfarfod Brwcws wedi cael ei newid i 20/21 Medi oherwydd mae cyngor Sir Ddinbych wedi cyflogi Cyfreithiwr. Mae cyfle i gynrychiolydd o Gyngor Tref Dinbych fod yn bresennol gyda'r cyfarfod i roi manylion am eu hymateb cynllunio. Bydd y Cyngor Roy Tickle yn mynychu fel Cadeirydd. b) Cynllun corfforaethol. Aeth y Cyngor Rhys Thomas drwy'r manylion a awgrymwyd ar gyfer Dinbych, a gofynnodd a oedd gan unrhyw un unrhyw beth arall yr hoffent ei hychwanegu.

Rhoi Dinbych yn gyntaf.

1. Holl ysgolion Dinbych i gael blaenoriaeth yn y cynllun Ysgolion 21 ganrif.

2. Blaenoriaeth i Ysgol Pendref fel rhan o'r cynllun uchod er mwyn gwella amgylchedd y trigolion yn yr ardal ddifreintiedig hon.
3. Datblygu cynllun o integreiddio'r Infirmary, Dolwen, Cysgodfa a Llys y Faner fel 'Hwb Iechyd Dinbych'. Cadw Dolwen yn nwylo'r Awdurdod Lleol a datblygu gwasanaethau.
4. Gwella cysylltiadau ffyrdd o fewn Dinbych yng ngolwg y safle mân-werthu newydd gan ganolbwyntio ar ei effaith ar ganol y dref gan gynnwys parcio ceir.
5. Cysylltu Dinbych gyda'r rhwydwaith seiclo cenedlaethol i gyfeiriad Llanelwy ac yna Rhuthun. Ymwelwyr ychwanegol yn hwb i'r economi yn ogystal â gwella iechyd a lleihau ar drafnidiaeth.
6. Darparu ardaloedd i ymarfer cŵn ar rhai tiroedd y Cyngor Sir. Hyn yn lleihau'r trafferthion a achosir gyda chŵn yn baeddu.

## 66. Cyfrifon

(1) Cymeradwyodd y taliadau canlynol:

|                                                                |   |           |
|----------------------------------------------------------------|---|-----------|
| a) Cyngor Sir Ddinbych - costau etholiad<br>(Rhif siec 006232) | - | £2,585.53 |
| b) Catrin Gilkes - cyfieithu 17/07/17<br>(Rhif Siec 006233)    | - | £114.00   |

Cyfanswm Taliadau £2,699.53

(2) Unrhyw faterion ariannol arall - Cadarnhaodd clerch y dref fod popeth wedi cael ei anfon at yr archwilwyr allanol, dyddiad cau oedd 24.07.17.

**67. Gwefan Cyngor Tref Dinbych** - yn dilyn trafodaeth, cadarnhaodd y Cyng Alyn Ashworth ei fod yn hapus i reoli'r diweddariadau ar wefan Cyngor Tref Dinbych yn dilyn ymddeoliad Tom Williams o'r swydd. Dymunodd y cynghorwyr ddiolch i Tom Williams am y nifer o flynyddoedd o gefnogaeth y mae wedi ei roi wrth ddiweddaru'r wefan y dref.

**68. Darlithoedd Treftadaeth Cyngor Tref Dinbych** - cynghorodd clerch y dref y bydd 10fed pen-blwydd y darlithoedd y flwyddyn nesaf. Gyda hyn mewn golwg mae 10 darlith wedi cael eu trefnu yn Neuadd y Dref. Dywedodd Cyng Rob Parkes fod y darlithoedd yn fwy addas ar gyfer y genhedlaeth hŷn ac y dylem ystyried darlithoedd addas ar gyfer disgyblion ysgol. Bydd clerch y dref yn edrych i mewn i hyn.

**69. Cynghorwyr i ddefnyddio dulliau electronig o gyfathrebu mynediad / seiliedig cwmwl i ddata.** Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ychwanegu hyn at y cyfarfod nesaf ym mis Medi lle bydd weithgor ar wahân yn cael ei greu i edrych ar wahanol opsiynau sydd ar gael.

**70. Graffiti - Gardd Dr Evan Pierce.** Dywedodd clerch y dref y bu digwyddiad yn yr ardd goffa lle bod graffiti wedi cael ei roi ar yr heneb. Mae'r clerch wedi cysylltu gyda CHADW a swyddog adeilad rhestredig Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer cyngor. Mae cwmni arbenigol yn mynd i ymweld â'r safle i asesu'r difrod a rhoi dyfynbris. Mae'r heddlu yn cymryd rhan ac mae clerch y dref wedi rhoi datganiad ynghylch y difrod.

**71. Llywodraethwr yn Ysgol Frongoch.** Y Cyng Alyn Ashworth yw'r cynrychiolydd cyngor y dref, fodd bynnag, wedi cael ei gynghori bod pob cyfarfod yn cael ei gynnal ar nos Iau. Ni all y Cyng Ashworth fod yn bresennol felly mae angen cynrychiolydd newydd sydd yn gallu mynychu ar nos Iau. Mae'r eitem hon wedi cael ei ohirio tan y cyfarfod ym mis Medi i ganiatáu ar gyfer rhai Cynghorwyr Dinbych isaf i gael y cyfle i gael eu henwebu.

## 72. Tân ac Achub Gogledd Cymru - Ymgynghoriad.

Roedd y Cyng Rhys Thomas wedi cymryd amser i edrych ar yr ymgynghoriad yn fanwl ac adborth ei ganfyddiadau i'r cynghorwyr.

Cytunwyd bod y clerc y dref ymateb i'r ymgynghoriad gyda'r manylion canlynol.

C1 - Llai o ddamweiniau mewn eiddo ar rent a HMO. Cynorthwyo cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys yr henoed.

C2 - Arian gan y sir a chronfeydd wrth gefn.

C3 - Llai o danau - Addysgu i gyd.

Terfynwyd y cyfarfod gan y cadeirydd am 8.18 yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)